

Yswiriant Cynnwys y Cartref

Os yw eich cartref yn cael ei ddifrodi gan dân neu lifogydd, neu os oes rhywun yn torri i mewn, oes gennych chi yswiriant cynnwys y cartref am y difrod neu'r golled ?

Mae'r cyngor yn gweithredu Cynllun Yswiriant Cynnwys y Cartref gyda chyfraddau ffafriol sy'n gallu cael eu talu'n wythnosol ynghyd â'ch rhent. Serch hynny, nid yw'n yswirio difrod neu golled i'ch eiddo personol, mae hefyd buddion am gymryd Cynllun Yswiriant Cynnwys y Cartref. Er enghraifft:

- Mae dau ddewis gwahanol o yswiriant sy'n addas i'ch anghenion - Yswiriant Safonol ac Yswiriant Difrod Damweiniol ac yswiriant ychwanegol ar gael ar gyfer Eiddo Personol ddim yn y cartref, Cadeiriau Olwyn a Sgwteri Symudedd a Chymhorthion Clyw.
- Yn wahanol i lawer o gynlluniau yswiriant preifat, lle mae tâl atodol dros ben fel arfer ar unrhyw hawliadau fydd efallai angen i chi wneud, gyda chynllun y cyngor does DIM taliad ar yswiriant safonol a dim ond tâl atodol o £25 ar yswiriant difrod damweiniol.
- Os yw eich eiddo wedi'i ddifrodi'n helaeth, er enghraifft trwy dân neu lifogydd, ac ni allwch chi breswyllo yn eich eiddo tra bod atgyweiriadau yn cael eu gwneud, bydd polisi'r Cyngor yn talu am eich taliad rhent, hyd at 15% o'r cyfanswm sydd wedi'i yswirio.
- Eitemau fel tenant rydych yn gyfrifol yn gyfreithiol amdanynt, fel difrod i osodiadau'r landlord a ffitiadau i'r cyfanswm uchaf hyd at 20% o'r cyfanswm yr hyn sydd wedi cael ei yswirio.
- Os ydych yn colli allweddi eich tŷ neu os oes rhywun yn eu dwyn, bydd y cynllun yn talu er mwyn rhoi allweddi newydd i chi ac i newid eich cloeon.
- Mae holl gynnwys eich cartref yn cael ei gynnwys gan y polisi ar sail 'newydd i hen', ac eithrio llieiniau a dillad a fydd yn cael eu newid ar eu cost gyfredol, lai o gyfanswm ar draul.

Pan rydych yn gweithio allan cost eich yswiriant, bydd angen i chi weithio allan faint fydd y gost i ailosod eich holl gynnwys. **Os ydych yn tanbriso eich cynnwys, gall hyn olygu os ydych yn hawlio, efallai na fydddech yn gallu cael gwerth llawn eich hawl.** Cofiwch eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod y swm a yswirir yn ddigonol ar gyfer holl eitemau'ch cartref a'ch eiddo personol. Dylech hefyd adolygu lefel y budd-dal a ddewiswyd gennych yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddigonol ar gyfer eich anghenion.

Y cyfanswm lleiaf sy'n gallu cael ei yswirio yw: £5000.

Er mwyn sicrhau eich bod wedi eich yswirio, rhaid i chi dalu eich taliadau rhent pan fo angen. Os ydych yn mynd i mewn i ôl-ddyledion mwy na 4 wythnos, bydd eich yswiriant yn cael ei ganslo yn awtomatig.

Fel unrhyw gynllun yswiriant arall, mae gennych ddyletswydd i gymryd rhagofalon rhesymol i atal colled ac ni fydd y cynllun yn yswirio am golled neu ddifrod a achosir gan unrhyw weithrediad bwriadol gennych chi neu rywun yn eich cartref.

I gael manylion llawn neu ragor o wybodaeth neu ffurflen gais cysylltwch ag Is-adran Yswiriant a Rheoli Risg Caerffili ar 01443 863430. Neu cysylltwch â'ch Swyddfa Gwasanaeth Rhenti leol ar 01443 811450 - e-bost: rhenti@caerffili.gov.uk

Lle mae Cartrefi Caerffili yn teimlo ei fod yn angenrheidiol i yswirio eich cartref er mwyn amddiffyn eich eiddo; mewn sefyllfa anarferol fod eich eiddo yn wag yn ystod y denantiaeth, ni all Cartrefi Caerffili fod yn atebol am unrhyw eiddo coll neu wedi'i ddifrodi o ganlyniad.